

Crynodeb Gwirio Ansawdd
Uned Cwm Seren, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Hywel Dda
Dyddiad y gweithgarwch: 16 Mehefin
2021

Dyddiad cyhoeddi: 21 Gorffennaf 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o uned iechyd meddwl Cwm Seren fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r ysbyty o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac yn darparu gofal i gleifion mewnol mewn dwy ward, uned gofal seiciatrig dwys¹ ac uned diogelwch isel².

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwyr y ddwy ward ar 16 Mehefin 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am y gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y cleifion ar yr adeg hon? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed i'r amgylchedd ffisegol, trefniadau ar y ward a gallu'r cleifion i fanteisio ar gyfnodau o absenoldeb o ganlyniad i COVID-19?
- Sut mae'r risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- O ystyried effaith COVID-19, sut rydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a sut mae hawliau'r cleifion yn cael eu diogelu?
- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach

¹ Mae'r uned gofal seiciatrig dwys yn ward arbenigol sy'n darparu gofal, asesiadau a thriniaeth iechyd meddwl cleifion mewnol i unigolion yn y cyfnod mwyaf aciwt o anhwylder meddyliol difrifol.

² Mae'r uned diogelwch isel yn uned arbenigol ar gyfer darparu gofal, asesiadau a thriniaeth iechyd meddwl i unigolion y mae angen diogelwch arnynt.

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Yr asesiad risg amgylcheddol diweddaraf
- Yr asesiad risg pwyntiau clymu diweddaraf
- Amserlenni glanhau

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth bod yr ysbyty wedi'i rannu'n ddwy ward. Roedd gan y wardiau “wely coch³” penodol ar gyfer COVID-19 lle byddent yn ynysu cleifion nes y gellid cael prawf COVID-19 adeg eu derbyn neu os oedd gan glaf symptomau. Roedd y ddwy ward yn gallu ei ddefnyddio mewn ffordd ddiogel.

Dywedwyd wrthym fod y staff wedi cael canllawiau diwygiedig ar atal a rheoli heintiau, a oedd yn cynnwys newid eu gwisg wrth gyrraedd a gadael yr ysbyty. Diwygiwyd y canllawiau yn unol â gofynion glanhau diwygiedig y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau trefniadau atal a rheoli heintiau effeithiol.

Dywedwyd wrthym y gwnaed newidiadau lluosog i leihau'r nifer o bobl ym mhob rhan o'r ysbyty. Roedd ymwelwyr yn cael eu cyfeirio i ystafell y gellid mynd iddi'n uniongyrchol o'r tu allan i'r adeilad, ac roedd yr arbenigwyr a'r meddygon ymgynghorol yn cynnal apwyntiadau drwy fideo-gynadledda yn rheolaidd. Am fod y bwrdd iechyd yn gwasanaethu llawer o ardaloedd gwledig, dywedodd y staff wrthym fod hyn wedi gwella presenoldeb mewn cyfarfodydd ag arbenigwyr, ac y byddai'r newid hwn yn debygol o ddod yn arfer parhaus oherwydd yr effaith gadarnhaol ar gleifion. Dywedwyd wrthym hefyd fod trefniadau ar waith i atal croeshalogi drwy atal staff gwahanol wardiau rhag cymysgu cymaint â phosibl.

Dywedwyd wrthym fod y cleifion wedi cael eu cefnogi i ddelio â'r cyfyngiadau ychwanegol a roddwyd arnynt oherwydd COVID-19 drwy sgysiau rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn deall

³Parth sy'n addas ar gyfer ynysu unigolyn yr amheuir neu y cadarnhawyd bod ganddo COVID-19 yw “gwely coch”.

y rheolau a'r rheoliadau. Mae'r staff hefyd wedi galluogi mwy o gyswllt rhithwir â theuluoedd er mwyn helpu cleifion i addasu i'r newidiadau. Newidiwyd gweithgareddau a sesiynau ar gyfer cleifion i'w helpu i fynd allan i'r awyr agored lle y bo'n bosibl, a chymdeithasu fel grŵp a gyda'u ffrindiau a'u perthnasau.

Cawsom gopi o'r asesiad risg amgylcheddol diweddaraf a gynhaliwyd ym mis Mai 2020, gyda diweddariad ym mis Awst 2020; ynghyd ag asesiadau risg pwyntiau clymu cynhwysfawr ar gyfer mis Rhagfyr 2020. Dywedwyd wrthym fod yr unedau wedi cyflawni diweddariadau helaeth cyn y pandemig COVID-19 er mwyn lleihau'r risgiau o ran pwyntiau clymu. Mae'r rhain yn dangos bod y sefydliad yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod iechyd a diogelwch cleifion, staff ac ymwelwyr yn cael eu hystyried yn briodol drwy gynnal archwiliadau ac asesiadau risg cadarn a chynhwysfawr.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Ffigurau ar gyfraddau heintio presennol ar gyfer Heintiau, gan gynnwys COVID-19
- Polisiâu rheoli heintiau cyffredinol a pholisiâu penodol i COVID-19
- Asesiad risg rheoli heintiau diweddaraf
- Amserlenni glanhau
- Archwiliad legionella
- Canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw achosion a gadarnhawyd o COVID-19 ymhlith y staff na'r grŵp cleifion ar hyn o bryd.

Cawsom gopïau o'r polisiâu a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau, a oedd yn cynnwys polisiâu a chanllawiau penodol ar gyfer COVID-19. Gwelsom fod y rhain yn gynhwysfawr ac yn adlewyrchu'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf ynghylch COVID-19. Caiff y canllawiau eu dosbarthu i bob aelod o staff yn dilyn unrhyw addasiadau. Mae hefyd fwrdd cyfathrebu COVID-9 ar y ddwy ward.

Gwelsom fod archwiliadau rheoli heintiau yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn yr ysbyty.

Cawsom gopiâu o adroddiadau o'r archwiliadau diweddaraf. Roedd y rhain yn dangos cydymffurfiaeth dda â'r trefniadau atal a rheoli heintiau, gyda chynlluniau gweithredu diwygiedig pan fo angen gwneud gwelliannau.

Dywedwyd wrthym fod amserlenni glanhau trylwyr wedi cael eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod pwyntiau cyffwrdd a'r amgylchedd cyffredinol yn cael eu glanhau'n fwy aml. Yn ogystal â hyn, mae gan bob swyddfa/man a rennir ac adran eu hamserlenni glanhau eu hunain. Mae pob ardal yn yr ysbyty wedi cael ei chlirio er mwyn cael gwared ar unrhyw eitemau diangen sy'n cynyddu'r risg o groesheintio.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cyflawni asesiadau risg unigol, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gweithio'n ddiogel yn yr ysbyty. Dywedwyd wrthym fod cyfradd cydymffurfio'r staff ar gyfer yr asesiadau hyn yn 100%. Dywedwyd wrthym fod y staff a'r cleifion yn cael cynnig profion llif unffordd ddwywaith yr wythnos, a bod yr holl staff a chleifion hefyd wedi cael cynnig brechiad COVID-19.

Dywedwyd wrthym fod digon o PPE ar gael i'r staff, y cleifion a'r ymwelwyr, a bod y cyflenwadau yn cael eu harchwilio'n aml er mwyn sicrhau bod lefelau stoc digonol yn cael eu cadw. Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am y canllawiau diweddaraf ar fesurau atal a rheoli heintiau. Roedd arferion hylendid dwylo yn cael eu hannog, ac roedd diheintydd dwylo ar gael ar gais. Roedd masgiau wyneb ar gael yn yr ardal newid wrth iddynt ddechrau eu sifft er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Nodwyd bod y staff yn canmol y cleifion am eu dealltwriaeth o'r heriau a wynebwyd yn ystod pandemig COVID-19, am gadw at y rheolau newidiol, a nodwyd nad oedd y newidiadau wedi effeithio ar ymddygiad y cleifion.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Gwelsom dystiolaeth bod y staff yn cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau. Dywedwyd wrthym fod hyn yn orfodol i bob aelod o'r staff, gan gynnwys y staff glanhau, er mwyn iddynt ddiogelu eu hunain a'r cleifion rhag niwed. Fodd bynnag, tua 80% oedd y gyfradd cydymffurfio ar gyfer hyfforddiant staff, felly ni allem fod yn sicr bod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau o fewn yr amserlen a argymhellir. Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y staff yn cwblhau eu hyfforddiant gorfodol.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Ystyriwyd a yw'r trefniadau rheoli yn cefnogi'r staff i gyflawni eu rolau ac a yw'r staff yn cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac

effeithiol. Hefyd, holwyd y gwasanaeth sut y mae, yn sgil effaith COVID-19, yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd gofal o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (a'r diwygiadau dilynol) ac o ran diogelu hawliau'r cleifion.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Llwybr derbyn
- Rhestr wirio craffu ddiweddaraf Deddf Iechyd Meddwl 1983
- Polisiâu/prosesau corfforaethol i sicrhau bod y gwasanaeth yn barod ar gyfer argyfwng pandemig yn y dyfodol
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol i bob aelod o'r staff
- Y cyfraddau cwblhau cyfredol ar gyfer hyfforddiant gorfodol
- Asesiadau risg a gynhaliwyd mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch y staff
- Manylion digwyddiadau a'r camau a gymerwyd i'w datrys
- Manylion digwyddiadau; yn benodol achosion o ymddygiad heriol, atal yn gorfforol ac arwahanu
- Nifer yr atgyfeiriadau diogelu
- Data ar leisiau'r cleifion
- Data ar leisiau'r cleifion / gofalwyr

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

O'r trafodaethau a gawsom â rheolwyr y ward, daeth yn glir bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau a phrosesau uwchgyfeirio ac adrodd yr ysbyty. Dywedodd cyfarwyddwr yr ysbyty wrthym ei fod yn cael cefnogaeth dda gan uwch-dîm rheoli'r sefydliad, a bod cyngor ac arweiniad ar gael yn ôl y gofyn.

Dywedwyd wrthym fod staff banc yn cael eu defnyddio i gyflenwi pan fydd staff yn absennol. Mae hyn yn darparu lefel o barhad o ran y gofal a ddarperir ac yn sicrhau bod y staff yn gyfarwydd â chynllun yr ysbyty a'i arferion gweithio, a'u bod hefyd yn gyfarwydd ag anghenion gofal unigol y cleifion.

Dywedwyd wrthym fod lefelau dibyniaeth y cleifion yn cael eu hasesu'n rheolaidd a bod staff ychwanegol yn cael eu defnyddio pe bai mwy o alw. Dywedwyd wrthym hefyd, pe bai'r gwasanaeth yn defnyddio staff asiantaeth ar unrhyw adeg, eu bod yn ymatebol ac yn gymwynasgar iawn, a oedd yn helpu i sicrhau bod digon o staff ar gael i weithio sifftiau ar fyr rybudd.

Dywedodd rheolwyr y ward wrthym fod hyfforddiant staff yn cael ei gynnal bob mis. Dywedwyd wrthym fod y staff o'r farn y bu'r trefniadau'n haws yn ystod pandemig COVID-19, am fod llawer o'r hyfforddiant yn cael ei gynnal o bell a bod y staff yn gallu cael mynediad ato oddi ar safle'r ysbyty.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol, sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol allanol, wedi parhau a bod yr holl adolygiadau a drefnwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 wedi'u cynnal o fewn yr amserlenni rhagnodedig. Lle na fu modd cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb, defnyddiwyd galwadau ffôn a fideo gynadledda i sicrhau bod y cleifion yn parhau i allu cael gafael ar wasanaethau proffesiynol allanol, gan gynnwys gwasanaethau eirioli.

Dywedwyd wrthym na fu modd i'r cleifion adael y lleoliad yn ôl yr arfer ar ddechrau'r pandemig yn unol â chanllawiau'r llywodraeth. Fodd bynnag, am fod cyfyngiadau COVID-19 wedi newid, adolygwyd statws gwyliau cleifion a'i ddiwygio er mwyn adlewyrchu'r newidiadau. Lle y bo'n briodol, mae'r staff wedi parhau i gynorthwyo'r holl gleifion i ymweld â'r gymuned yn ddiogel drwy gydol y cyfnod, yn unol ag asesiadau risg a chynlluniau gofal a thriniaeth unigol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.